Llawlyfr 2023 - 2024

Ysgol y Graig

Llawlyfr
Ysgol y Graig, Llangefni

Adolygwyd Mai 2023

ENW A CHYFEIRIAD YR YSGOL:

Ysgol y Graig,
Ffordd y Coleg,
Lôn Talwrn,
Llangefni
Ynys Môn.
LL77 7LP

Rhif Ffôn: 01248 723092

e-bost:
6602154_pennaeth.graig@hwbcymru.net

safwe ysgol: www.ysgolygraig.cymru

PENNAETH

Mrs Meinir Lois Roberts

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Pleser i ni fel staff yw croesawu eich plentyn i'r ysgol hon. Y mae dod i'r ysgol am y tro cyntaf, neu newid ysgol, yn gam mawr i'ch plentyn ac i chwithau hefyd.

Yn yr ysgol hon bydd eich plentyn yn dod yn aelod o deulu hapus, clos sydd ag anghenion pob unigolyn wrth wraidd yr addysg.

Mae staff yr ysgol hon am weld pob plentyn yn datblygu i fod yn unigolyn annibynnol, hyderus sy'n barod i leisio'i farn / barn. Mae yma ethos cryf o barch at ein gilydd sy'n caniatáu i blant ffynnu ac sy'n gosod y seiliau ar gyfer sicrhau fod y plant hyn yn tyfu i fod yn aelodau cyfrifol o fewn y gymuned leol.

Trwy gydweithio'n agos â'r cartref gallwn sicrhau fod eich plentyn yn datblygu i'w (l)lawn potensial. Darperir llu o weithgareddau amrywiol yma er mwyn galluogi'r plant i ddatblygu a dysgu sgiliau newydd a fydd yn eu harfogi i wireddu eu breuddwydion.

Fel Pennaeth credaf fod pob plentyn sy'n mynychu'r ysgol hon yn haeddu'r addysg orau posib. Fy nyletswydd i yw sicrhau fod y ddarpariaeth yma yn caniatáu i hynny ddigwydd.

M L Roberts

MATH O YSGOL

Mae Ysgol y Graig yn Ysgol Gynradd Sirol (Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Allweddol 2).
Mae'n ysgol ddyddiol, Gymreig, gyd-addysgol. Mae tua 370 o blant yn mynychu'r ysgol hon.

SAFLE'R YSGOL

Saif yr ysgol ar gyrion tref farchnad Llangefni, Ynys Môn. Agorwyd yr ysgol yn 2009. Mae'r ysgol wedi ei chynllunio'n bwrpasol ar gyfer ateb anghenion disgyblion yn yr 21ain Ganrif. Clustnodwyd gardd ysgol, lle chwarae caeedig i'r plant Meithrin ac iard a chae chwarae eang i weddill yr ysgol. Mae'r Cyngor Ysgol yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau fod amgylchedd yr ysgol yn sbarduno brwdfrydedd plant ac yn adlewyrchu barn y disgyblion.

TEITHIO A PHARCIO

Mae'r ysgol yn annog rhieni i gerdded neu i rannu ceir wrth ddod a'u plant i'r ysgol. Ceir maes parcio penodol ar gyfer staff Cyngor Sir Ynys Môn yn unig, sef staff yr ysgol ac ymwelwyr swyddogol. Neilltuwyd man gollwng plant ar gyfer rhieni. Dylid gyrru'n ofalus ac yn bwyllog ger safle'r ysgol bob amser. Erfynnir am gydweithrediad pawb, er diogelwch y plant.

IECHYD A DIOGELWCH

Cymerir pob gofal posib am ddiogelwch y plant tra byddant yn yr ysgol. Os bydd plentyn yn sâl neu mewn damwain cysylltir â'r rhieni, yna os fydd angen eir â'r plentyn i Ysbyty Gwynedd neu cysylltir â'r gwasanaethau brys.
Rhoddir moddion i blentyn mewn achosion arbennig yn unig—a hynny ar ôl derbyn cyfarwyddyd ysgrifenedig gan riant.
Ni chaniateir i blentyn adael yr ysgol yn gynnar heb ganiatâd. Os fydd newid yn y modd y bydd plentyn yn mynd adref, gofynnir i'r rhieni hysbysu'r Pennaeth neu athro'r plentyn o flaen llaw o'r newidiadau hynny.
Mae'r ysgol yn arolygu trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer y disgyblion a staff yn gyson. Rhaid i bob ymwelydd mewngofnodi gan ddefnyddio'r côd QR wrth y brif fynedfa cyn cael mynediad i weddill yr ysgol. Mae gan yr ysgol system larwm lladron sydd wedi ei gysylltu â'r orsaf heddlu, a cheir 'ymarferion tân' yn dymhorol.

CYFLEUSTERAU TOILEDAU

Y mae'r cyfleusterau toiledau, sydd ar gael i'r disgyblion, yn bodloni gofynion Iechyd a Diogelwch yr HSE. Bydd y toiledau'n cael eu harchwilio a'u glanhau'n ddyddiol gan ddefnyddio'r cemegolion glanhau a argymhellir gan y Cyngor Sir.

PRIF AMCANION YR YSGOL

1. Creu amgylchfyd ac awyrgylch hapus a diogel lle y gall disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill, ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas.

2. Cynnig addysg o'r ansawdd gorau posibl sydd yn adlewyrchu gofynion yr unigolion, y gymdeithas, yr Awdurdod Addysg a'r Llywodraeth.

3. Sicrhau cyflawniad gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod sylfaen trwy roi'r cyfle i bob disgybl ddatblygu i'w lawn botensial ymhob agwedd ar y cwricwlwm.

4. Cynnig cyfle cyfartal i bob disgybl, waeth beth fo'i ryw, allu, crefydd neu hil.

5. Annog parch tuag at bobl eraill ac eiddo a phwysleisio pwysigrwydd ymddygiad ardderchog, cwrteisi ac ymddangosiad i bob disgybl.

6. Galluogi pob disgybl i ddatblygu i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel y gallant gymryd rhan llawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog.

AMCANION CYFFREDINOL

1. Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o gymdeithas ddisgybledig sy'n rhoi bri yn ei bywyd a'i gwaith ar werthoedd moesol, ysbrydol a dyngarol.
2. Meithrin parch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir, cred a diwylliant a sicrhau cyfleoedd cyfartal beth bynnag fo'u hil, crefydd, rhyw, rhywioldeb, oedran neu anabledd.
3. Sicrhau y datblygir gallu pob disgybl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng dysgu yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod Addysg.
4. Sicrhau bod dilyniant a datblygiad yn y profiadau a'r gweithgareddau a ddarperir a bod cyfran helaeth o'r profiadau hynny yn adlewyrchu natur bywyd a diddordebau'r disgyblion.
5. Sicrhau bod pob maes yn rhoi sylw i'r Cwricwlwm Cymreig.
6. Galluogi disgyblion i ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn amrywiaeth o gyd-destunau cwricwlaidd.
7. Sicrhau y defnyddir dulliau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu meddyliau ymchwilgar a bywiog, y gallu i gwestiynu a thrafod yn rhesymegol, i ddatrys problemau real ac i weithio'n annibynnol.
8. Darparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a fydd o gymorth i ddatblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.
9. Darparu cwricwlwm eang sy'n datblygu potensial llawn bob disgybl.
10. Annog cyswllt rhwng ysgolion:

    - â'r cartref
    - â'r gymuned
    - ag ysgolion eraill [meithrin, cynradd ac uwchradd]
    - â diwydiant a masnach
    - â'r Awdurdod Addysg ag asiantaethau perthnasol eraill.

AWYRGYLCH AC ETHOS

Sefydlir awyrgylch hapus a gweithgar sy'n seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal, athrawon a disgyblion, a disgyblion a'i gilydd, fydd yn galluogi plentyn i ymagweddu'n gadarnhaol a datblygu hunanhyder ynghyd â hunanddelwedd bositif fel y bo'n parchu ei hun heb fod yn drahaus. Sicrheir fod pob disgybl yn teimlo'n rhan o gymdeithas ddisgybledig sy'n rhoi bri ar werthoedd moesol, ysbrydol a dyngarol.

TREFNIADAU I RIENI YMWELD GYDA'R YSGOL

Rydym fel ysgol yn barod bob amser i groesawu rhieni trwy'n drysau. Os ydych yn dymuno ymweld gyda'r ysgol gofynnwn i chwi gysylltu er mwyn gwneud apwyntiad i weld y Pennaeth.

ORIAU YSGOL – oriau arferol

Bore: 8.55—12.00yb
9.00 – 11.00yb (Meithrin)
Amser Cinio: 12.00—1.00yh
Prynhawn: 1.00—3.00yh (Meithrin)
1.00 – 3.05yh (Blynyddoedd Cynnar: Derbyn – bl2)
1.00 – 3.15yh (Cyfnod Allweddol 2: Bl3 – Bl6)

Bydd yr ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant o 8.45yb.

Gan fod yr ysgol wedi ei chynllunio i fod yn 'Ysgol Werdd' disgwylir i bob plentyn sydd o fewn cyrraedd rhesymol i'r ysgol fod yn cerdded neu feicio.

Mae gan yr ysgol Glwb Gwarchod Plant sydd ar gael bob bore rhwng 7.55yb ac 8.20yb. Y gost yw £1.25 y plentyn bob dydd. Mae'r Clwb Brecwast am ddim ar agor o 8.20yb — 8.45yb bob dydd i'r holl ddisgyblion. Cysylltwch gyda'r ysgol am ragor o wybodaeth am y clybiau hyn.

Gofynnwn i rieni plant meithrin, derbyn, Bl 1, Bl2 a Blwyddyn 3 sicrhau fod eu plant yn cyrraedd ac yn gadael yr ysgol gydag oedolyn cyfrifol ar bob achlysur. Dylid hysbysu'r ysgol ynglŷn â threfniadau casglu plant, sy'n wahanol i'r arfer.

GWEFAN YSGOL

Mae gan yr ysgol wefan:
www.ysgolygraig.cymru

Ar y wefan hon ceir gwybodaeth am yr ysgol ynghyd â llythyrau sydd wedi eu hanfon gartref. Rydym hefyd yn rhannu llythyrau a negeseuon drwy ein system SeeSaw.

POLISI MYNEDIAD YSGOL Y GRAIG

Mae gan bob ysgol rif derbyn. Rhif derbyn yr ysgol hon yw 47. Nid oes trosglwyddiad awtomatig o'r Meithrin i'r Derbyn, a chan mai Awdurdod Addysg Môn yw'r Awdurdod Derbyn, bydd yr Awdurdod yn ystyried ceisiadau. Os digwydd bod mwy wedi dewis anfon eu plant i'r ysgol nag sydd o le ar eu cyfer, ystyrir ceisiadau yn unol â'r meini prawf canlynol a restrir yn nhrefn blaenoriaeth:

- Nifer y plant y gellir eu derbyn i'r ysgol (h.y. rhif derbyn yr ysgol ar gyfer bob blwyddyn ysgol);
- Yr ardal ddaearyddol a wasanaethir fel arfer gan yr ysgol (h.y. Dalgylch diffiniedig)
- A oes gan y darpar ddisgybl frawd neu chwaer yn yr ysgol.

Er mwyn gwneud cais am le yn yr ysgol, rhaid cyflwyno cais ar lein i Gyngor Ynys Môn cyn 1af o Chwefror.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Ynys Môn, sef www.ynysmon.llyw.cymru

DERBYN PLANT

Derbynnir plant i'r Uned Feithrin yn rhan-amser yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Estynnir gwahoddiad i rieni i gyfarfod â staff y dosbarth meithrin yn ystod tymor yr Haf cyn bod eu plant yn cychwyn yn yr ysgol er mwyn i'r plant cael cyfle i ymgynefino â'r Uned Feithrin, lleoliad toiledau, maes chwarae a.y.y.b. ac i gyfarfod yr Athrawon a'r Pennaeth. Gwelwyd dros y blynyddoedd fod ymweliad o'r fath yn torri'r garw ac yn osgoi llawer o drafferthion dechrau mewn ysgol newydd.

Bydd y plant yn dod i'r ysgol yn llawn amser yn y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn 4 oed.

Trosglwyddir y plant yn 11 oed i Ysgol Gyfun Llangefni. Rhoddir cyfleoedd i'r plant ymweld â'r ysgol cyn eu trosglwyddo.

PRESENOLDEB YN YR YSGOL

Mae presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn hanfodol os yw plentyn am wneud y cynnydd gorau posib. Rhaid i'r ysgol roi eglurhad am bob achos o absenoldeb a phenderfynu a yw'n "absenoldeb gydag awdurdod" (e.e.salwch) neu'n "absenoldeb heb awdurdod" (e.e. mynd i siopa). Gofynnwn i rieni roi gwybod i ni pan y mae/roedd plentyn yn absennol neu'n hwyr yn cyrraedd yr ysgol, naill ai trwy lythyr/ galwad ffôn/neges seesaw neu ymweliad personol. Nid yw esboniad gan y plentyn ei hun yn ddigonol. Os na cheir eglurhad bydd yr ysgol yn cysylltu gyda'r cartref i holi'r achos ac os na cheir ymateb yna rhestrir yr absenoldeb fel un "heb awdurdod". Bydd presenoldeb pob plentyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Pennaeth. Mewn achosion o absenoldebau cyson, neu batrwm amlwg o gyrraedd yr ysgol yn hwyr, bydd y Pennaeth cysylltu gyda'r rhieni, ac os na cheir eglurhad boddhaol bydd rhaid cyfeirio'r achos i sylw'r Gwasanaeth Lles Addysg.

Dylai rhieni sy'n bwriadu trefnu gwyliau yn ystod tymor ysgol wneud cais am ganiatâd ar ffurflen briodol ymlaen llaw. Fel rheol ni all yr ysgol awdurdodi absenoldeb i ddiben gwyliau am fwy na 10 diwrnod yn ystod y flwyddyn academaidd. Anogir y rhieni i beidio tynnu'r plant o'r ysgol os nad yw'n hollol angenrheidiol. Bydd yr ysgol yn edrych ar lefel presenoldeb y plentyn cyn cytuno i awdurdodi gwyliau yn ystod tymor ysgol.

Adroddir i rieni ar lefel presenoldeb eich plentyn / plant ar ddiwedd y flwyddyn addysgol. Ystyrir presenoldeb o 95% yn dda. Mae presenoldeb llai na 92% yn anfoddhaol.

CLWB BRECWAST a CHLWB GWARCHOD

Bellach mae'r ysgol yn darparu Clwb Gwarchod ar gyfer plant o 7.55yb hyd 8.20yb am gost o £1.25 y plentyn y dydd. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig Clwb Brecwast am ddim i blant yr ysgol rhwng 8.20yb a 8.45yb. Cynigir brecwast iach i'r plant yn unol â rheoliadau statudol Llywodraeth Cymru 'Bwyta'n Iach Mewn Ysgolion'. Os ydych am i'ch plentyn fanteisio ar y clybiau hyn gofynnir i chwi gwblhau'r ffurflenni cofrestru sydd ar gael o'r ysgol/seesaw.

GWASANAETH PRYDAU CINIO

Gwasanaeth Arlwyaeth Chartwells sy'n gyfrifol am y cinio ganol dydd. Mae copi o'r fwydlen ar gael i rieni. Gofynnir am wythnos o rybudd os am newid o ginio i frechdanau neu i'r gwrthwyneb.

Derbynnir arian cinio bob bore (£2.20 y dydd). Disgwylir i'r taliadau cael eu gwneud ar lein drwy ddefnyddio app 'School Gateway'. Cysylltwch gyda'r swyddfa am ragor o wybodaeth.

Mae gan bob plentyn yn y dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yr hawl i ginio am ddim. Bydd gan holl blant yr ysgol yr hawl i ginio am ddim o Fedi'r 1af 2023. Cysylltwch â'r swyddfa am ragor o wybodaeth.

BOCSYS BWYD IACH

Mae rhai rhieni'n penderfynu rhoi bocs bwyd i'w plant yn hytrach na chinio ysgol. Rydym fel ysgol yn eich annog i ystyried cynnwys y bocs bwyd y byddwch yn ei ddarparu i'ch plentyn. Rydym yn credu mewn addysgu'r plant o oed ifanc am bwysigrwydd bwyta'n iach. Gofynnwn am eich cydweithrediad drwy sicrhau fod cynnwys y pecyn bwyd yn cydymffurfio ag argymhellion canllawiau Llywodraeth Cymru, 'Blas am Oes'.

BYRBRYDAU, DŴR A LLEFRITH

Yn unol â dogfen statudol Llywodraeth Cymru 'Blas am Oes' caniateir i blant ddod â ffrwythau a dŵr i'r ysgol yn unig. Mae Ffynnon ddŵr wedi ei lleoli yn yr ysgol at ddefnydd y plant a hynny'n rhad ac am ddim. Anogir y plant i yfed digon o ddŵr drwy gydol y dydd. Mae poteli dŵr ar werth o'r ysgol am £1.50.

Caniateir i blant ddod â ffrwyth o'i dewis i'r ysgol i'w fwyta amser chwarae. Er mwyn sicrhau diogelwch plant, gofynnir i rawnwin fod wedi cael eu torri.

Cynigir llefrith am ddim i blant 3 i 7 oed.

GWISG

Mae gan yr ysgol wisg ysgol swyddogol. Er nad oes gorfodaeth ar blant i'w gwisgo teimlwn fod gwisg ysgol yn meithrin balchder tuag at yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi, ac felly mawr obeithiwn y byddwch chi, y rhieni'n, barod i gefnogi gwisg swyddogol yr ysgol. Nid oes rhaid i'r wisg ysgol fod â bathodyn yr ysgol arno.

Crys polo glas golau.
Siwmper / crys chwys glas.
Trowsus du / sgert ddu.

Gellir prynu'r wisg yn yr ysgol neu o Siop Brodwaith, Llangefni neu o unrhyw archfarchnad lleol, os nad ydych am gael gwisg sy'n cynnwys bathodyn yr ysgol.
Mae grant Llywodraeth Cymru ar gael i helpu gyda chostau gwisg ysgol ar gyfer teuluoedd sydd a hawl i ginio am ddim. Defnyddiwch y link hwn am ragor o wybodaeth. Grant Datblygu Disgyblion (grant gwisg) (llyw.cymru)

Gemwaith

Am resymau diogelwch ni chaniateir gemwaith yn yr ysgol ac eithrio wats blaen, modrwy signet a stydiau clust. Ni chaniateir mathau eraill o glustdlysau.

Esgidiau

Dylai plant wisgo esgidiau tywyll addas. Gall esgidiau gyda sodlau uchel fod yn beryglus ac felly ni ddylid eu gwisgo i'r ysgol.

Teganau

Ni chaniateir i'r plant ddod â theganau i'r ysgol.

Gwalltiau

Disgwylir i'r disgyblion wisgo eu gwalltiau yn daclus a gochel rhag defnyddio 'batrymau' neu siapiau gwallt yn amhriodol i'r ysgol.

Enwau ar ddillad

Gallwch fentro fod dillad yn mynd ar goll o bryd i'w gilydd. Erfyniwn arnoch i sicrhau fod label enw ar bob dilledyn, gan gynnwys cotiau a dillad Addysg Gorfforol.

Dillad Addysg Gorfforol

Disgwylir i'r plant newid i ddillad addas ar gyfer Addysg Gorfforol ac yn ôl i'w dillad arferol ar ddiwedd y wers. Bydd eich plentyn angen crys – t a throwsus byr. Bydd y plant hefyd angen esgidiau Addysg Gorfforol.

DYSGU AC ADDYSGU

ATHRAWON A STAFF

Prif adnoddau pob ysgol yw ei hathrawon a'r cymorthyddion a'u gallu i greu a chynnal perthynas hapus â'r plant. Yr ydym yn ffodus i feddu ar staff sy'n rhoi pwyslais ar ansawdd y berthynas rhwng athro/athrawes a disgybl er mwyn hyrwyddo datblygiad academaidd a phersonol y plentyn. Credwn mai'r athro/athrawes sy'n llwyddo yw'r athro/athrawes a ddaw i adnabod ei (d)disgyblion fel unigolion, sy'n ymwybodol o'u bywydau y tu allan i'r ysgol ac sy'n barod bob amser i barchu a rhoi bri ar eu profiadau a'u hymdrechion i ddygymod â nhw. Mae staff yr ysgol hon yn hyrwyddo bywydau'r disgyblion fel unigolion.

TREFNIADAETH DYSGU AC ADDYSGU

O fewn yr ystafell ddosbarth trefnir y gwaith gan yr athro/athrawes. Mae 12 o ddosbarthiadau llawn amser yn yr ysgol. Mae'r dosbarthiadau hyn wedi eu trefnu'n ôl oedran.

Trosglwyddir plant o'r Dosbarthiadau Blynyddoedd Cynnar i'r Adran Cyfnod Allweddol 2 pan fyddant yn 7 oed.

Mae yma hefyd Dosbarth Meithrin rhan amser gyda'r plant yn mynychu unai bob bore neu brynhawn, yn ôl eu hoedran.

CWRICWLWM YR YSGOL – CWRICWLWM I GYMRU

Cyflwynir cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol, meddyliol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y plentyn. Gwneir hyn yn bennaf drwy'r dull thematig. Ers Medi 2022 mae'r ysgol yn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae gweledigaeth yr ysgol, ynghyd a model y cwricwlwm sy'n cael ei gynnig yn y Graig wedi'w gyhoeddi ar wefan yr ysgol – www.ysgolygraig.cymru. Mae holl ddisgyblion, rhieni, Llywodraethwyr a staff yr ysgol wedi cyfrannu tuag at greu ein gweledigaeth ni. Mae'r cwricwlwm yn seiliedig ar y pedwar diben, sef datblygu plant i fod yn:

1. ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
2. gyfranwyr mentrus, uchelgeisiol
3. yn unigolion iach a hyderus
4. ddysgwyr egwyddorol, gwybodus

IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU DEFNYDDIO'R GYMRAEG

Y Gymraeg yw prif gyfrwng dydd i ddydd yn yr Uned Feithrin a'r Blynyddoedd Cynnar, er mwyn i'r plant gael sylfaen gadarn yn yr iaith. Mae nifer o blant sy'n cychwyn gyda ni yn y meithrin yn dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol gan staff sy'n sensitif i anghenion y plant. Caiff ei addysgu drwy ganu hwiangerddi, ailadrodd patrymau a drwy chwarae. Erbyn diwedd y dosbarth Meithrin mae mwyafrif o'r plant yn deall ac yn dechrau mynegi eu hunain yn y Gymraeg gan ddefnyddio ymadroddion syml.

Caiff y Saesneg ei gyflwyno'n ffurfiol ym Mlwyddyn 2 er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn ddwyieithog erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol hon yn 11 mlwydd oed.

Yn ystod eu taith o Flwyddyn 3 i flwyddyn 6 fe addysgir y plant drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff cymhareb cyfrwng Cymraeg/Saesneg y gwersi ei benderfynu i ateb gofynion ieithyddol dosbarthiadau penodol, er mwyn sicrhau fod pob plentyn yr un mor hyderus a galluog yn y ddwy iaith erbyn iddynt gyrraedd diwedd eu cyfnod yn yr ysgol hon.

Caiff plant sy'n cychwyn ym mlwyddyn 3 neu uwch ac sy'n newydd i'r Gymraeg eu gwahodd i fynychu Uned Iaith am dymor lle caent eu trochi yn y Gymraeg. Mae hyn yn eu galluogi i integreiddio i mewn i fywyd yr ysgol ynghyd â'r gymuned leol.

Caiff plant yn Ysgol y Graig eu hasesu yn eu gallu o ran Cymraeg fel Iaith Gyntaf sydd yn unol â pholisi iaith yr Awdurdod Lleol. Ond mewn rhai amgylchiadau eithriadol caiff ambell i blentyn ei asesu drwy gyfrwng y Saesneg. Mae hyn yn ddibynnol ar faint o amser mae'r plentyn wedi ei dreulio'n dysgu'r Gymraeg.

Cyn i ddisgyblion Blwyddyn 6 drosglwyddo i'r Ysgol Gyfun cynhelir cyfarfod rhwng Pennaeth Blwyddyn 7 ac athrawon yr ysgol hon er mwyn trafod gallu ieithyddol y disgyblion a phenderfynu pa ddosbarth fyddai orau ar gyfer pob plentyn. Rydym fel ysgol yn ymfalchïo o gael cyfle i gyfranogi o gyfoeth diwylliant drwy gyfrwng dwy iaith.

Mae'r ysgol hon wedi mabwysiadu ac yn gweithredu canllawiau'r Siarter Iaith Ynys Môn. Mae gofyn i bob ysgol ar yr ynys ei fabwysiadu er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc yr ynys.

IAITH

Mae datblygiad ieithyddol plentyn yn sylfaen i ddysgu. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol hyn drwy amrywiol brofiadau sydd wedi ei chynllunio i symbylu ymateb synhwyrol, bywiog a deallus yn y ddwy iaith.

GWRANDO

Rhoddir sylw i ddatblygu gallu plentyn i wrando'n effeithiol mewn sefyllfaoedd torfol, sefyllfaoedd grŵp ac fel unigolyn er mwyn iddo gael pleser, ymateb i gyfarwyddyd ac ymateb yn greadigol a deallus.

SIARAD

Rhoddir pwyslais ar greu sefyllfaoedd lle fo plant yn cael cyfle i ddatblygu'r gallu i siarad yn glir, yn ddealladwy ac yn hyderus mewn iaith briodol i'r sefyllfa dan sylw, gan ymarfer gofal am gywirdeb.

DARLLEN

Mae'r ysgol hon yn rhoi pwyslais ar feithrin y plentyn fel darllenwr o'r cychwyn cyntaf fel y gall:

- gael pleser neu ddiddanwch.
- ddyfnhau ei ddealltwriaeth.
- gasglu gwybodaeth.
- ddatblygu'i allu i fod yn feirniadol yn ei ddarllen ac i werthfawrogi llyfrau da.

YSGRIFENNU

Rhoddir cyfle i'r plentyn ymateb yn ysgrifenedig i wahanol brofiadau a sefyllfaoedd ac i ysgrifennu i wahanol ddibenion fel y gall:

- ddefnyddio ysgrifennu fel cyfrwng i fynegi ei hun a gwneud synnwyr o'r byd o'i gwmpas.
- ddefnyddio ysgrifennu i ddyfnhau'i ddealltwriaeth.
- ddewis a defnyddio ffurf ar ysgrifennu sy'n briodol ar gyfer y pwrpas sydd iddo.
- arbrofi a datblygu ei sgiliau creadigol.

MATHEMATEG A RHIFEDD

Mae fframwaith mathemateg yr ysgol yn seiliedig ar ofynion y Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig o fewn Cwricwlwm i Gymru. Ceir 4 datganiad ar gyfer y maes mathemateg a Rhifedd, sef:

1. Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.
2. Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.
3. Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol
4. Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

Mae'r cwricwlwm hefyd yn cynnwys 5 hyfedr rhyngddibynnol, sef:

1. Dealltwriaeth gysyniadol
2. Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau
3. Rhuglder
4. Rhesymu rhesymegol
5. Cymhwysedd strategol

DYSGU DIGIDOL

Credwn ei fod yn allweddol bwysig ein bod yn arfogi'n plant gyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer byd gwaith y dyfodol. Dysgwn sgiliau cyfrifiadureg / technoleg ddigidol trwy weithgareddau ymarferol ar draws ystod o weithgareddau amrywiol ac mae'n cyfrannu i waith ar draws y cwricwlwm. Ymdrechwn i godi ymwybyddiaeth plant o botensial technoleg digidol yn y byd o'u cwmpas ac i ymdrin ag o'n hyderus a diogel.

GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn rhoi sylw i'r isod:

- Deall natur a phethau byw.
- Dysgu am ddylunio ac adeiladu pethau.
- Sut mae technoleg yn gweithio a sut i'w ddefnyddio i ddatrys problemau.

Ceir 6 Datganiad o'r hyn sy'n Bwysig o fewn y maes hwn, sef:

1. Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
2. Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.
3. Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.
4. Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.
5. Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.
6. Mae cyfrifiaduraeth yn sail i'n byd digidol.

Y DYNIAETHAU

O fewn y maes dysgu a phrofiad Dyniaethau rhoddir cyfleodd i'r dysgwyr ddysgu am hanes, daearyddiaeth a chrefyddau. Maent hefyd yn dysgu am fusnes a gwleidyddiaeth h.y. sut mae'r wlad yn cael ei rhedeg, a hefyd am y gymdeithas a sut mae pobl yn ein gwlad yn byw gyda'i gilydd.

O fewn y maes hwn rhoddir sylw i 5 Datganiad o'r hyn sy'n bwysig. sef:

1. Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
2. Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
3. Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
4. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
5. Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol

Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

Mae'r maes dysgu a phrofiad hwn yn eang ac yn rhoi cyfleodd i ddysgwyr mynegi eu hunain drwy waith celf, dawns, cerddoriaeth a chyfryngau digidol.

Ceir 3 Datganiad o'r hyn Sy'n Bwysig, sef:

1. Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion
2. Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol
3. Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Cerddoriaeth – Yn ysgol y Graig gellir ymestyn y ddarpariaeth gerddorol i'r plant sy'n dangos dawn arbennig trwy ymuno â Chynllun Ysgolion William Mathias, sy'n darparu athrawon teithiol i ddysgu offerynnau o fewn ysgolion. Codir ffi am y gwersi. Ar hyn o bryd gall Ysgol y Graig drefnu gwersi, ffidil, soddgrwth, offerynnau pres, piano a'r delyn.

IECHYD A LLES

Mae'r maes dysgu a phrofiad hwn yn sicrhau cyfleodd i ddysgwyr ddysgu am gael corff iach, a meddwl iach. Maen hefyd yn cael cyfleoedd i ddeall beth yw perthnasoedd iach a sut i wneud penderfyniadau bywyd da.

Mae 5 Datganiad o'r hyn Sy'n Bwysig o fewn y maes hwn, sef:

1. Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.
2. Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol
3. Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.
4. Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.
5. Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles

THEMAU TRAWSGWRICWLAIDD

O fewn Cwricwlwm i Gymru mae 5 thema trawsgwricwlaidd.

1. Hawliau Dynol
2. Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol – yr ardal sy'n lleol i ni yn Langefni, dysgu am Gymru, a'r byd yn ehangach.
3. Gyrfoedd a phrofiadau cysylltiedig â'r byd gwaith - Dysgu am waith a sut i ddewis y math o waith y dymunai'r dysgwyr ei wneud.
4. Amrywiaeth – Parchu gwahaniaethau pobl e.e beth maen nhw'n ei gredu neu o le maen nhw'n dod.
5. Addysg cydberthynas a rhywioldeb - Mae'r maes yma'n Nghymru'n statudol. Nid oes gan rieni/gwarchodwyr yr hawl i eithrio eu plentyn/plant o'r addysg hwn. Yn Ysgol y Graig byddwn yn sicrhau fod y maes yn cael ei addysgu o fewn cyd-destun ac yn addas a phriodol i oedran y disgyblion. Bydd y dysgwyr yn dysgu am deimladau, perthnasoedd iach a sut rydyn ni'n meddwl amdanom ni ein hunain.

YR ELFENNAU GORFODOL

Mae'r Cwricwlwm i Gymru hefyd yn nodi 4 maes gorfodol sydd rhaid cael eu cyflwyno ym mhob ysgol.

1. Y Gymraeg
2. Y Saesneg
3. Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb
4. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

CYNGHORAU YSGOL

CYNGOR YSGOL

Sefydlwyd y Cyngor Ysgol gyda'r prif nod o roddi cyfle i ddisgyblion chwarae rhan mewn gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol. Caiff aelodau'r cyngor eu hethol gan ddisgyblion yr ysgol. Ceir cynrychiolydd o bob blwyddyn CA2 ar y Cyngor Ysgol. Maent yn cyfarfod i drafod materion sy'n bwysig i blant ysgol gan adrodd yn ôl i'r Pennaeth. Mae cynrychiolwyr Blwyddyn 6 hefyd yn cynrychioli Ysgol y Graig ar Gyngor Ysgol Dalgylch Llangefni. Maent yn cyfarfod er mwyn trefnu gweithgareddau trosglwyddo cynradd/uwchradd, trefnu gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi, ac yn ddiweddar er mwyn creu gweledigaeth dalgylch ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

CYNGOR YSGOL IACH

Mae Ysgol y Graig yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd a Môn. O ganlyniad i waith caled y Cyngor Ysgolion Iach Ysgol y Graig, cwblhaodd yr ysgol y Cam Aur yn llwyddiannus. Mae addysgu'r disgyblion am arferion byw yn iach yn flaenoriaeth gyson gan yr ysgol hon. Mae'r Cyngor Ysgol hefyd yn cyfrannu'n helaeth at y cynllun hwn.

YSGOL ECO

Mae gan yr ysgol Gyngor Ysgol Eco sy'n cynnwys plant o Flwyddyn 3 i 6. Mae'r plant hyn wedi eu hethol gan holl ddisgyblion yr ysgol. Mae eu gwaith caled wedi arwain at lwyddiant, gyda'r ysgol bellach wedi ennill y Faner Werdd. Nod yr ysgol yw addysgu plant a chodi ymwybyddiaeth ynddynt o'r angen i ofalu am eu cyfrifoldeb o safbwynt gofalu am yr amgylchedd.

PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae'r ysgol wedi treulio'r ddwy flynedd diwethaf yn paratoi ar gyfer Deddf Addysg newydd ddaeth i rym ym Medi 2022. Mae Mrs Naomi Edwards wedi ei phenodi'n Gydlynydd ADY ar gyfer y BC a Mrs Rhian Griffiths yn Gydlynydd ADY CA2. Mae polisi'r ysgol yn manylu ar y canllawiau i'w dilyn er mwyn cyfarfod â gofynion y ddeddf newydd. Wrth gynnal ymholiad ac adolygiadau ADY, mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r rhieni/gwarchodwyr ac amryw asiantaethau allanol. Fodd bynnag mae llais y plentyn yn ganolog i bob cam gweithredu'r ysgol.

Wrth greu map ddarpariaeth ar gyfer ateb anghenion y dysgwyr rhoddir ystyriaeth lawn i natur yr anawsterau, a chynhelir trafodaethau gyda'r rhieni/gwarchodwyr a'r plant.

PLANT MEWN GOFAL / LLES

Mae'r ysgol yn credu fod gan bob plentyn, waeth beth yw ei gefndir yr hawl i addysg ragorol. Rydym yn cydweithio gyda'r plant a'r rhieni / gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llawn botensial.

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am sicrhau fod plant sydd mewn gofal o fewn yr ysgol hon yn cyflawni'r gorau y gallent. Mae hi'n cydweithio'n agos â Mrs Elen Hughes, Swyddog Lles yr ysgol er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn ateb gofynion y plant hyn.

Mae gan yr ysgol hefyd ddosbarth sy'n maethu ac yn cyflogi dwy cymhorthydd ELSA, sy'n arbenigo mewn darparu cynhaliaeth emosiynol a chymdeithasol i'r plant.

Mae'r ysgol hefyd yn cyflogi therapydd chwarae er mwyn cynnig cefnogaeth i'r plant hynny sydd ei angen. Yn ogystal â hyn mae'r ysgol yn cydweithio'n agos iawn â nifer o asiantaethau eraill er lles ein plant.

DIOGELU PLANT

Y Pennaeth yw'r Swyddog Dynodedig Diogelu Plant o fewn yr ysol a chaiff ei chefnogi gan Mrs Elen Hughes, Swyddog Lles yr Ysgol sy'n hefyd yn gweithredu fel yr Swyddog Dynodedig Diogelu Plant. Mae Mr Owain Gwilym, Pennaeth Cynorthwyol yn Is-Swyddog Diogelu Plant o fewn yr ysgol. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol er mwyn sicrhau diogelwch pob disgybl. Os oes gennych bryderon gofynnwn i chwi gysylltu gyda'r Pennaeth neu Mrs Elen Hughes. Mae'n bosib i rieni hefyd cysylltu gyda Theulu Môn i drafod unrhyw bryder sydd gennych – 01248 725888. Ceir rhagor o wybodaeth am Teulu Môn ar eu gwefan – www.teulumon.cymru

ASESU AC ASESU AR GYFER DYSGU

Asesir plant yn fewnol fel rhan o bolisi asesu'r ysgol. Caiff dysgwyr eu hasesu ar ddechrau a diwedd pob blwyddyn addysgol er mwyn mesur y cynnydd maent yn ei wneud. Caiff plant meithrin eu hasesu o fewn y 6 wythnos gyntaf iddynt gychwyn yn yr ysgol. Yn yr un modd, asesir plant dosbarth derbyn o fewn 6 wythnos i gychwyn addysg llawn amser. Yn ogystal â hyn mae staff addysgu yn asesu'r plant yn barhaus. Mae athrawon hefyd yn addysgu plant sut i asesu eu hunain. Mae hyn yn caniatáu i'r staff adnabod y camau nesaf sydd angen ei gymryd er mwyn sicrhau gwelliant. Ym mis Mehefin cyflwynir adroddiad ysgrifenedig i rieni/gwarchodwyr am gynnydd eu plentyn.

Cynhelir hefyd nosweithiau rhieni yn ystod y flwyddyn er mwyn i'r rhieni/gwarchodwyr weld gwaith eu plant a thrafod eu datblygiad gyda'r athrawon. Mae pob athro / athrawes yn cadw asesiadau manwl am eu plant ac yn trafod y 'ffordd ymlaen' gyda rhieni yn ystod y nosweithiau agored.

GWAITH CARTREF

Y mae yn bolisi gan yr ysgol i osod gwaith cartref yn rheolaidd, a byddwn o bryd i'w gilydd yn gofyn i'r plant gwblhau tasgau gartref. Gall hyn olygu gorffen gwaith, cwblhau tasg benodol, canfod gwybodaeth, holi rhieni neu aelodau eraill o'r teulu, neu waith dysgu e.e. tablau lluosi, geiriau ar gyfer prawf sillafu. Hoffem bwysleisio eich rôl chi'r rhieni yn hyn a gobeithiwn y byddwch yn cynorthwyo, yn goruchwylio ac yn sicrhau fod tasgau yn cael eu cyflawni hyd gorau gallu pob unigolyn. Cofiwch hefyd bod darllen yn gyson yn rhan bwysig iawn o waith cartref. Gobeithiwn y byddwch yn gwneud defnydd llawn o'r Cofnod Darllen sydd ar SeeSaw ac yn cofnodi'ch sylwadau fel cyfeirnod ychwanegol i'r athrawon.

Croesewir rhieni i drafod gwaith cartref â'r athro/athrawes dosbarth os oes anawsterau o unrhyw fath yn codi.

YMDDYGIAD AC YMAGWEDDAU

Rhoddir blaenoriaeth uchel i ymddygiad ac ymagweddiad positif o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn cyflawni ei phwrpas, sef datblygu twf a datblygiad pob plentyn. Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan disgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill. Gwyddom y cawn eich cefnogaeth fel rhieni yn hyn o beth. Amlinellir y disgwyliadau hyn a'r camau gweithredu ym 'Mholisi Hyrwyddo Ymddygiad a Disgyblaeth', a rheolau'r ysgol.

GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL

Gobeithia'r ysgol am gydweithrediad a chefnogaeth rhieni gydag unrhyw weithgaredd ychwanegol a drefnir, megis cyngherddau gyda'r nos, ymarferion ar eu cyfer ac ymarferion pêl-droed, pêl-rwyd a.y.y.b. Gofynnir i rieni sicrhau eu bod yn trefnu i hebrwng y plant gartref ar ddiwedd y gweithgaredd.

YR URDD

Yn ystod Tymor yr Hydref gwahoddir disgyblion i ymuno gyda'r Urdd. Trwy ddod yn aelod o'r Urdd caiff y plant gyfle i gystadlu gyda gwaith celf a chrefft, cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn ogystal â chystadlu yn yr Eisteddfod yr Urdd. Rhoddir cyfleoedd iddynt hefyd gymryd rhan yn y gwasanaeth carolau blynyddol. Caiff aelodau Blwyddyn 5 a 6 gyfle i fynychu cyrsiau preswyl Glan Llyn, Caerdydd neu Llangrannog yn flynyddol.

CODI TAL AM WEITHGAREDDAU

Egwyddor sylfaenol Deddf Addysg 1988 oedd y dylai gweithgareddau addysgol fod yn ddi-dâl i bob disgybl. Serch hynny mae gan yr ysgol hawl statudol i ofyn i rieni gyfrannu tuag at gostau gyda'r ddealltwriaeth na fydd unrhyw blentyn yn dioddef anfantais os na all rieni gyfrannu'n ariannol. Mae'r ysgol bob amser yn barod i helpu teuluoedd gyda sefyllfaoedd cyllidol, yn unol â'r Polisi Codi am Weithgareddau. Caiff pob rhiant gyfle i dalu am weithgareddau ychwanegol dros gyfnod o amser neu mewn un taliad. Ni wrthodir unrhyw blentyn rhag cymryd rhan mewn gweithgaredd neu ymweliad o ganlyniad i ddiffyg taliadau. Gofynnir i rieni dalu cyfraniad at gost cludiant ar gyfer ymweliadau addysgol gan gynnwys y daith i'r Ganolfan Hamdden ar gyfer gwersi nofio. Dynodir y swm blynyddol gogyfer â gwersi offerynnol gan Gorff y Llywodraethwyr.

POLISÏAU

Cysylltwch gyda'r ysgol os yr ydych angen gweld y polisi llawn.

POLISI GWRTH-FWLIO'R YSGOL

Y POLISI:

Mae gan yr ysgol bolisi pendant sy'n amlinellu sut rydym yn delio ag achosion o fwlio pan ddigwydd yn yr ysgol. Mae'r polisi'n cydymffurfio â chanllawiau Gwrth-fwlio (Cylchlythyr 23/2003)

NOD Y POLISI:

1. Creu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n gartrefol, yn ddiogel ac yn hapus. Dim ond mewn amgylchedd fel hwn y gall plant gyrraedd eu llawn botensial. Mae pob math o fwlio yn tanseilio cyfle cyfartal.

2. Mae'r polisi hwn yn caniatáu i'r ysgol adnabod bwlio cyn gynted ag y bydd yn dechrau gan ganiatáu i'r staff ddelio â'r sefyllfa a'i datrys cyn gynted â phosibl.

Pan fo'r ysgol yn adnabod achosion o fwlio fe fydd yn dilyn y camau isod:

1. Trafod y digwyddiad gyda'r plant yn unigol.

2. Cynnal cyfarfod gyda'r rhieni/gwarcheidwaid.

3. Cofnodi'r dystiolaeth a gasglwyd.

4. Gweithredu pellach os oes angen.

POLISI CYDRADDOLDEB

Mae gan yr ysgol bolisi cydraddoldeb.

NOD Y POLISI:

1. Darparu cyfle i bob disgybl, beth bynnag fo'i ryw, ei allu, ei gefndir diwylliannol ag ethnig.

2. Sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn dioddef rhagfarn ar sail hil, cred, rhyw, iaith, gallu addysgol, safle cymdeithasol nac anabledd.

3. Sicrhau fod holl ystod y cwricwlwm ac holl adnoddau'r ysgol ar gael i bob disgybl.

4. Sicrhau fod agweddau cymdeithasol cadarnhaol yn cael eu meithrin yn yr ysgol ymhlith plant ag oedolion. Anogir plant i gydweithio ac i ddangos dealltwriaeth o'u cyfrifoldeb tuag at eraill.

POLISI FFONAU SYMUDOL

Mae gan yr ysgol bolisi ffonau symudol.

NOD Y POLISI:

Mae gan bob ysgol ddyletswydd fugeiliol tuag at ei disgyblion a thrwy hynny, mae'r ysgol hon yn hyrwyddo atal camdriniaeth ac esgeulustod trwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i'w disgyblion.

Mae'r ysgol hon o'r farn fod bwlio seibr yr un mor ddifrifol â ffurfiau eraill o fwlio.

O ganlyniad ni ellir caniatáu defnyddio ffonau symudol gan ddisgyblion tra ar safle'r Ysgol.

Os oes rhaid i blentyn ddod â ffôn symudol gydag ef/ hi i'r ysgol am resymau arbennig fe fydd yn rhaid iddo / iddi ei adael yn y swyddfa gynted ag y bydd yn cyrraedd yr ysgol.

Trefn Disgyblu

Pe bai disgybl yn defnyddio ffôn symudol tra ar safle'r Ysgol mi fydd yn derbyn cosb yn unol â pholisi 'Rheoli Ymddygiad Disgyblion' yr Ysgol. Mi fydd disgwyl i'r unigolyn cadw ei ffôn, wedi'i diffodd mewn man ddiogel a ddarperir gan yr Ysgol i'r pwrpas hwnnw. Dychwelir y ffôn symudol ar derfyn y diwrnod ysgol.

Os bydd y disgybl yn torri'r rheol am yr ail-dro cedwir y ffôn hyd nes bydd rhiant wedi dod i'r ysgol i'w nôl.

POLISI DEFNYDD O RWYDWEITHIAU CYMDEITHASOL

(Yn unol â chyfarwyddyd Awdurdod Addysg Môn)

Defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, blogio a Twitter.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod defnyddio gwefannau cymdeithasol yn hwyl ac yn ffordd dda o gadw cyswllt gyda ffrindiau a theulu ond mae'n rhaid bod yn hynod o ofalus wrth ddefnyddio safleoedd o'r fath.

Mae'n ofynnol bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau tuag at yr ysgol a theuluoedd eraill wrth ymwneud a'r dechnoleg uchod.

Nid yw'n ymarferol llunio rhestr gynhwysfawr o ddefnydd amhriodol ond gwell yw cadw mewn golwg set o egwyddorion wrth ymwneud a'r uchod. Yr egwyddorion yw:

- Mae gan bawb yr hawl i breifatrwydd.
- Amhriodol yw barnu staff, rhieni neu ddisgyblion yn gyhoeddus.
- Amhriodol yw cyfathrebu gyda rhieni a disgyblion ynghylch gwaith pob dydd a gweithwyr yr ysgol.
- Mae trafodaethau o fewn yr ysgol yn gyfrinachol. Mae'n hollol amhriodol i rieni drafod pethau sydd wedi digwydd yn yr ysgol ac enwi plant unigol.
- Ni ddylid defnyddio lluniau o weithgareddau ysgol heb ganiatad yr holl o'r plant a'r oedolion sydd yn y llun.

Byddem yn ddiolchgar petaech yn cadw hyn mewn cof.

Cofiwch fod yr ysgol ar gael i drafod unrhyw bryder gyda chwi - cewch godi'r ffôn am sgwrs neu gytuno ar amser cyfleus, cytunedig i drafod eich pryderon.

Y DREFN GWYNO

Mae'r Corff Llywodraethu yr ysgol, yn unol â gofynion Adran 29 Deddf Addysg 2002, wedi sefydlu trefn ar gyfer trin cwynion gan rieni.

Bydd y Corff Llywodraethol yn ystyried canllawiau'r Cynulliad Cylchlythyr 03/2004 pan ddaw unrhyw gwyn i law. Bydd pob broses yn dilyn y drefn a nodir yn y ddogfen. Mae'r Llywodraethwyr wedi sefydlu trefn tri cham i drin a chwynion.

Cam 1

Cwyn lafar/ysgrifenedig i aelod o staff neu'r pennaeth. Gwneir pob ymdrech gan y pennaeth i ddatrys y gwyn ar y cam hwn.

Cam 2

Cwyn ysgrifenedig i'r pennaeth a gaiff ei archwilio a'r canlyniad yn cael ei gyflwyno yn ysgrifenedig i'r achwynydd.

Cam 3

Os nad yw'r achwynydd yn fodlon â'r canlyniad fe all y Corff Llywodraethu ystyried y mater. Clywir y gwyn gan Bwyllgor Cwynion y Corff. Yn dilyn cwblhau Cam 3 gall y corff llywodraethol neu'r achwynydd gysylltu â'r AALl i adolygu'r drefn.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r pennaeth.

Y CORFF LLYWODRAETHU MEDI 2022

Cyfansoddwyd y Corff yn unol â Deddf Addysg 1986.

Dr Iestyn Pierce (Cadeirydd)
Mr Huw Redvers Jones (Is gadeirydd)
Mr Owain Gwilym (clerc)

Cynrychiolwyr Yr Awdurdod Addysg Lleol:
Dr Iestyn Pierce
Cyng. Non Dafydd
Mrs Sioned Williams

Cynrychiolwyr y rhieni:
Mrs Ffion Hughes
Mr Huw Tegid Roberts
Mrs Llio Tomos
Mrs Alison Owen

Aelodau Cyfetholedig:
Mr Huw Redvers Jones
Mr Richard Pritchard
Mrs Margaret Thomas

Cynrychiolydd Cyngor Tref Llangefni:
Cynghorydd (gwag)

Cynrychiolydd yr Athrawon
Mr Rhys G Pritchard

Cynrychiolydd y Staff Ategol
Ms Llinos Jones

Mrs Meinir L Roberts (Pennaeth)

STAFF YR YSGOL 2023 - 2024

Uwch Dîm Rheoli:
Mrs Meinir L Roberts B.Add. - PENNAETH
Mrs Elain Wyn Jones B.A. – DIRPRWY BENNAETH
Mr Owain Ll. Gwilym B.Add. – PENNAETH CYNORTHWYOL (cyfnod mamolaeth)

Tîm Rheoli:
Mrs Manon Wyn Jones Owen B.A. – ARWEINYDD CAM 1 (meithrin - Bl1)
Miss Awen Jones B.A. – ARWEINYDD CAM 1 (meithrin - Bl1 cyfnod mamolaeth)
Mr Rhys G Pritchard B.Add. – ARWEINYDD CAM 2 (Bl2 – 4)
Mrs Manon Jones B.A. - ARWEINYDD CAM 3 (Bl 5 a 6)
Mrs Naomi Edward B.A. - CYDLYNYDD ADY y BC (meithrin – Bl2)
Mrs Rhian Griffiths M.A. - CYDLYNYDD ADY CA2 (Bl3 – 6)
Mr Owain Williams B.Add - CYDLYNYDD ADY CA2 (Bl3 – 6 cyfnod mamolaeth)

Athrawon y Blynyddoedd Cynnar:
Mrs Naomi Edwards B.A.
Mrs Lowri Mai Jones B.A
Miss Manon Rowlands B.A.
Miss Awen Jones B.A.
Mrs Elin Rowlands M.A.
Mrs Bethan Rowlands B.A.

Athrawon Cyfnod Allweddol 2:
Mr Rhys Glyn Pritchard B. Add
Mrs Lisa Jên Thomas B.A
Mr Owain Williams B.Add
Mr Owain Ll. Gwilym B.A
Mr Gethin Phillips B.Add
Mrs Manon Jones B.A

STAFF CPA
Mrs Manon Wyn Jones Owen B.Add
Mrs Rhian Griffiths M.A
Mrs Elen Owen B.A.
Mr Jonathan Jones B.A. (cyfnod mamolaeth)

Staff Ategol Cymhorthyddion Cyfnod Sylfaen
Mrs Meryl Pritchard-Evans
Mrs Melanie Lewis
Mrs Sharon Williams
Miss Karen Jones
Miss Debbie Purcell
Mrs Anwen Roberts
Mrs Susan Taylor
Mrs Einir Williams

Staff Ategol Cymhorthyddion Integreiddio
Mrs Lowri Jones
Miss Emelda McGrath
Miss Ffion Roberts Owen
Miss Catrin Lloyd
Mrs Nia Morris
Mrs Wenna Jones
Mrs Sioned Mason
Miss Pamela Roberts
Mrs Helen Roberts
Mr Dyfed Williams
Mrs Jennifer McGilvary

Staff Dosbarth sy'n Maethu / Lles
Mrs Michaela Innes
Mrs Alwen Moore
Mrs Elen Hughes (Swyddog Lles Ysgol)
Mrs Sally Hanson – (Therapydd Chwarae)

Staff Swyddfa
Mrs Donna Redvers Jones (swyddog cefnogi ysgol / clerc cinio)
Ms Llinos Jones (swyddog cefnogi ysgol)
Mr Gary Williams (Gofalwr)

DYDDIADAU GWYLIAU 2023/ 2024

TYMOR:
Hydref 2023
1 Medi 2023 - 22 Rhagfyr 2023
Gwanwyn 2024
8 Ionawr 2024 - 22 Mawrth 2024
Hâf 2024
8 Ebrill 2024 - 19 Gorffennaf 2024

GWYLIAU:
30 Hydref – 3 Tachwedd 2023 (Hanner-Tymor)
25 Rhagfyr 2023 - 5 Ionawr 2024 (Gwyliau'r Nadolig)
12 - 16 Chwefror 2024 (Hanner-Tymor)
25 Mawrth – 5 Ebrill 2024 (Gwyliau'r Pasg)
1 Mai 2024 (Calan Mai)
27 Mai – 31 Mai 2024 (Hanner-Tymor)

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

MEDI 2023	21
HYDREF 2023	20
TACHWEDD 2023	19
RHAGFYR 2023	16
IONAWR 2024	18
CHWEFROR 2024	16
MAWRTH 2024	16
EBRILL 2024	17
MAI 2024	17
MEHEFIN 2024	20
GORFFENNAF 2024	15
---- 195 ----	

1 Ddiwrnod dan Reolaeth Ysgol – Medi'r 1af
5 diwrnod hyfforddiant i'w trefnu gan yr ysgol yn ystod y flwyddyn

Bydd yr ysgol yn ail-agor I blant ar ddydd Llun, Medi'r 4ed 2023.